# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Cylch Gorchwyl – Gweithgor Gweithredol

### Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i Aelodau'r Cyngor ar ffurfio'r Gweithgor wedi'i aildrefnu i gefnogi Cyngor Adnewyddu'r Economi a'i gylch gorchwyl cysylltiedig

### Cefndir

2. Yng nghyfarfod diwethaf Cyngor Adnewyddu'r Economi nodwyd bwriad i gytuno ar Aelodaeth o'r Gweithgor wedi'i aildrefnu.

3. O ganlyniad i'r grŵp wedi'i aildrefnu roedd bwriad i ailddrafftio'r Cylch Gorchwyl hefyd.

### Diweddariad

4. Mae cynrychiolaeth gan TUC Cymru, Commerce Cymru a Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cael ei chytuno bellach rhwng y Partneriaid Cymdeithasol a'i nodi gan Lywodraeth Cymru.

5. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp wedi'i aildrefnu ar 25 Tachwedd 2014.

6. Cafodd y Cylch Gorchwyl diwygiedig, sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1, ei ystyried yn y cyfarfod a'i gytuno.

7. Yr enw newydd yw'r Gweithgor Gweithredol.

8. Gofynnir i'r aelodau nodi'r Cylch Gorchwyl diwygiedig.

Cyngor Adnewyddu'r Economi 09/02/2014
Papur i'w nodi

**Atodiad 1**

## Cylch Gorchwyl ar gyfer Gweithgor Gweithredol Cyngor Adnewyddu'r Economi

### Pwrpas

Cefnogi amcan Cyngor Adnewyddu'r Economi, sef gwella economi Cymru.

Yn arbennig:

- Cydweithio i adnabod cynigion i gefnogi datblygu economaidd.
- Ystyried gweithgareddau holl gyrff Llywodraeth Cymru sy'n ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i sicrhau bod polisïau a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru yn gyson â dull Llywodraeth-gyfan o wella'r economi. Gweinidogion priodol i gael eu hysbysu, a chwmpas unrhyw waith i gael ei nodi, cyn bod adolygiadau o weithgareddau o fewn cyfrifoldebau eu portffolio'n cael eu hystyried.
- Adolygu cynnydd gyda'r Fframwaith Economaidd.
- Sefydlu grwpiau tasg a gorffen fel y bo'n briodol.
- Argymell eitemau i gael eu cynnwys ar agendâu Cyngor Adnewyddu'r Economi.
- Canlyn arni â chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yng Nghyngor Adnewyddu'r Economi.
- Cynghori ynghylch gweithrediad y Cynllun Busnes a'i oleuo.
- Cyfleu gwybodaeth am waith Cyngor Adnewyddu'r Economi a'i Weithgor Gweithredol i'r partneriaid cymdeithasol a ddiffinnir yn y Cynllun Busnes.

### Teitl

Gweithgor Gweithredol Cyngor Adnewyddu'r Economi.

### Aelodaeth

- Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru
- Tri chynrychiolydd o Commerce Cymru
- Tri chynrychiolydd o TUC Cymru.

Ym mlwyddyn gyntaf ei weithrediad bydd TUC Cymru yn cynnig un o'i seddi i Canolfan Cydweithredol Cymru i'w gwneud yn bosibl cynnwys safbwynt mentrau cymdeithasol o fewn trafodaethau. Bydd yr aelodaeth yn cael ei hadolygu ar ôl un flwyddyn i benderfynu pa un a ddylai fod gan y sector mentrau cymdeithasol un cynrychiolydd trwy ei hawl ei hun yn ogystal â'r tri chynrychiolydd o Commerce Cymru a'r tri chynrychiolydd o TUC Cymru.

### Amlder

Pedwar cyfarfod y flwyddyn. Opsiwn i gwrdd yn amlach i drafod materion penodol fel y bo angen.

### Gweithrediad cyfarfodydd

Trefniadau a phapurau i gael eu dosbarthu gan Lywodraeth Cymru/Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru.

**Adolygu**

Bydd gweithrediad Gweithgor Gweithredol Cyngor Adnewyddu'r Economi yn cael ei adolygu ar ôl blwyddyn i benderfynu i ba raddau y mae wedi gallu cyflawni ei gylch gorchwyl.